

Pennotec

Proffil y Cwmni

Mae Pennotec, sef menter newydd a sefydlwyd yn rhan o Pennog Ltd, yn biotechnolegwyr diwydiannol sydd â'r nod o gynghori ar dechnoleg, a darparu technoleg, i gynorthwyo busnesau a gweithredwyr wrth drawsnewid gwastraff gweithgynhyrchu yn adnoddau gwerthadwy.

Yn nodweddiadol, mae biomas sy'n wastraff yn cronni o ganlyniad i weithgareddau gweithgynhyrchu niferus sy'n deillio o amrywiaeth o ddiwydiannau, gan gynnwys amaeth; bwyd a diodydd; cemegau a deunydd fferyllol; a thanwyddau a biodanwyddau. Mae sefydlu marchnadoedd newydd yn lle dulliau gwaredu trwy safleoedd tirlenwi neu losgi yn flaenoriaeth i Pennotec. Ar hyn o bryd, mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr, Dr Jonathan Hughes, yn canolbwyntio ar y ffrydiau gwastraff sydd ynghlwm wrth brosesu cig cramenogion.



Cregyn crancod wedi'u golchi, eu sychu a'u melino

Cydweithio â BEACON

Ar ôl dod i wybod yn wreiddiol am brosiect BEACON drwy'r Ganolfan BioGyfansoddion ym Mangor, cyfarfu Jonathan â'r Rheolwr Datblygu Busnes, Selwyn Owen, a'r Uwch Wyddonydd, Joe Gallagher, yng Nghynhadledd Flynyddol 2013 BEACON a gynhaliwyd ym mis Mehefin yn Llandudno. Yn ddiweddarach, trefnwyd cyfarfod ffurfiol rhyngddynt i drafod technegau amgen ar gyfer epleu gwastraff crancod.

Arweiniodd trafodaethau gyda thîm BEACON

yn ystod haf 2013 at ffurfio prosiect ymchwil a datblygu cydweithredol a fyddai'n para un mis, i nodi atebion prosesu arloesol. Roedd cyfleusterau maint peilot a chyfleusterau ymchwil bioburo presennol BEACON, ochr yn ochr â'r posibilrwydd o gynnal dadansoddiad technegol-economaidd o'r canlyniadau a gafwyd, yn ffactorau a ddylanwadodd ar berdefnydd Jonathan i gydweithio.

“ Mae BEACON wedi rhoi cymorth sylweddol i Pennotec, gan gynnwys darparu cymorth rhwydwaith ar gyfer datblygu'r busnes yn y dyfodol a chais cymhellol ar gyfer grant gan y Bwrdd Strategaeth Technoleg. ”

Jonathan Hughes - Cyfarwyddwr

Cysylltodd Pennotec â BEACON gyda'r syniad cychwynnol o ddefnyddio cynhyrchion bioburo siwgr glaswellt fel dull o waredu cyfansoddion penodol o ddeunydd gwastraff cregyn crancod. Bu trin cregyn crancod gwastraff a'u rhagbrosesu yn dasg heriol. Fodd bynnag, cafodd hyn ei oresgyn trwy ddefnyddio cyfarpar ffwrn aerglos uwchraddio BEACON yn Aberystwyth a gwnaed y sychu a'r melino yn y Ganolfan Trosglwyddo Technoleg BioGyfansoddion ym Mona, Ynys Môn. Dangosodd BEACON yn gadarnhaol ei allu i ymgorffori deunydd gwastraff cregyn crancod mewn bioburo siwgr glaswellt. Mae canlyniadau'r cydweithio wedi galluogi Pennog Ltd i wneud cais llwyddiannus am gyllid y Bwrdd Strategaeth Technoleg i gynnal prosiect hyfywedd technegol, sy'n para naw mis, yn 2014.



Am fwy o wybodaeth: www.pennotec.com/about-us/